Sut mae cael mynediad at ffeiliau neu negeseuon e-bost wedi'u hamgryptio gan ddefnyddio E-bost Diogel Egress Switch

Fel derbyniwr E-bost Diogel Egress Switch, byddwch yn gallu darllen negeseuon diogel a chael mynediad at ffeiliau wedi'u hamgryptio yn gyflym ac yn rhwydd. Does dim angen i chi lwytho meddalwedd i lawr na gosod meddalwedd er mwyn darllen E-bost Diogel Switch, ond mae modd llwytho ap i lawr yn rhad am ddim ar gyfer ffôn symudol neu fwrdd gwaith, o www.egress.com.

Cam Un: Agor cyfrif E-bost Diogel Switch – Defnyddiwr newydd

Gan eich bod yn ddefnyddiwr newydd, bydd angen i chi greu cyfrif Switch. Dim ond unwaith fydd rhaid i chi fynd drwy'r broses hon, a dim ond ychydig o funudau mae'n ei gymryd i'w chwblhau. **Os oes gennych chi gyfrif Switch eisoes, gallwch chi fynd ymlaen i Gam Dau.**

1. Cliciwch ar y ddolen **read this secure email** yn yr e-bost hysbysu a gawsoch chi.

2. Yn y porwr gwe sy'n agor, dewiswch y ddolen **New User?** i greu eich cyfrif Switch.


switch®
secure data exchange
To access the secure message LB-160212-110255 please sign in with your Switch ID.
If you do not have a Switch ID, create it for free. This will only take a minute and will be required once.
Switch ID:
user@example.com
Password:
Remember my Switch ID
Sign In
New User?
Create a Switch account. It's free.
Forgot Your Password?
Reset your Switch password.
What Is Switch?
Learn more about Switch.

3. Rhowch eich manylion yn y ffenestr sy'n agor. **Rhaid i chi ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost y cafodd E-bost Diogel Switch ei anfon iddo er mwyn agor y neges.**



4. Lluniwch gyfrinair er mwyn cael mynediad i'r cyfrif. Defnyddiwch y cwymplenni i ddewis cwestiynau diogelwch addas a rhowch atebion ar eu cyfer. Cofiwch, bydd yr atebion i'ch cwestiynau diogelwch yn cael eu defnyddio os bydd angen i chi ailosod eich cyfrinair.



Bydd cod cynnau yn cael ei anfon i'r cyfeiriad e-bost y gwnaethoch ei ddefnyddio ar gyfer eich cyfrif Switch. Os na fyddwch chi'n cael eich cod cynnau cyn pen 5 munud, edrychwch yn eich ffolderi Sothach neu Sbam.

5. Copïwch y cod i'r maes **Activation code** a dewis **Submit Activation Code**.

6. Bydd ffenestr newydd yn agor ar ôl i chi gwblhau'r broses gofrestru. Dewiswch **Read your message now** i weld y neges ddiogel.

Nodyn pwysig: Cynnyrch diogelwch gwybodaeth yw Egress Switch. Er bod pob gofal wedi'i gymryd i sicrhau'r lefel uchaf o ddiogelwch a chywirdeb data bob amser, fe ddylech chi fod yn wyliadwrus iawn o weithgarwch amheus, a pheidiwch byth ag ysgrifennu manylion eich cyfrif Switch na'u rhannu ag unrhyw un

Cam Dau: Darllen Negeseuon E-bost Diogel Switch a'u hateb

1. Ar ôl i chi gofrestru am gyfrif Switch, gallwch chi gael mynediad at Negeseuon E-bost Diogel Switch drwy ddewis y ddolen **read this**
secure email yn yr e-bost hysbysu.

2. Rhowch eich manylion yn y porwr gwe sy'n agor a dewis **Sign in**.

3. **Ar ôl i chi gofrestru a mewngofnodi, gallwch gael mynediad at yr e-bost diogel ac unrhyw atodiadau**. Yn ogystal â chorff y neges
a'r atodiadau, byddwch chi hefyd yn gallu gweld:
   - Manylion yr anfonwr
   - Dyddiad ac amser anfon yr e-bost diogel
   - **Pwnc y neges**

4. I ateb e-bost diogel, cliciwch **Reply** neu **Reply All** fel sy'n briodol. Lluniwch eich ateb, ac ychwanegu lluniau a derbynwyr eraill os oes angen, wedyn dewis **Send**.



Nodyn pwysig: Cynnyrch diogelwch gwybodaeth yw Egress Switch. Er bod pob gofal wedi'i gymryd i sicrhau'r lefel uchaf o ddiogelwch a chywirdeb data bob amser, fe ddylech chi fod yn wyliadwrus iawn o weithgarwch amheus, a pheidiwch byth ag ysgrifennu manylion eich cyfrif Switch na'u rhannu ag unrhyw un.

Cam Tri: Cael mynediad at ffeiliau mawr

Gallwch ddefnyddio E-bost Diogel Switch i anfon a derbyn ffeiliau mawr yn ddiogel. Os byddwch chi'n derbyn E-bost Diogel Switch sy'n cynnwys ffeiliau wedi'u hatodi:

1. Dewiswch y ddolen yn yr e-bost hysbysu.

2. Rhowch eich manylion yn eich porwr gwe a dewis **Sign in**.

3. Yn y Pecyn Diogel Switch sydd wedi agor, byddwch chi'n gweld dau fotwm:
   - **Agor Ar-lein:** Bydd hwn yn agor y pecyn yn y Darllenydd Gwe Switch. Byddwch chi'n gweld y ffeiliau sydd wedi'u hatodi wedi'u rhestru o dan fanylion yr anfonwr.
   - **Llwytho i lawr** Bydd hwn yn llwytho'r neges '**.switch**' wedi'i amgryptio i lawr (mae angen i chi lwytho'r meddalwedd Switch Client i lawr er mwyn defnyddio'r opsiwn hwn). Dewiswch atodiad, wedyn dewis y botwm download i'w lwytho i lawr i'ch cyfrifiadur.

Rhagor o wybodaeth am E-bost Diogel Switch

Ewch i www.egress.com/online-tutorials i wylio tiwtorialau fideo ynghylch defnyddio E-bost Diogel Switch, gan gynnwys sut mae gwneud y canlynol:

- Cael mynediad at neges ddiogel
- Rheoli eich negeseuon a rheoli'r mynediad atynt mewn amser real
- Anfon ffeiliau mawr yn ddiogel
- Cymeradwyo neu rwystro ceisiadau am fynediad at negeseuon diogel

Cymorth technegol

Os cewch unrhyw broblem wrth ddefnyddio E-bost Diogel Switch, neu os oes gennych chi gwestiynau technegol, cysylltwch ag Egress Support yn

© Egress Software Technologies Ltd 2017. 138-0117